

VOICES FROM THE FACTORY FLOOR/ LLEISIAU O LAWR Y FFATRI

Ffatri Ddillad Slimma-Dewhirst, Llandymddyfri (dechrau yn 1977)

Cyfwelai: **VSW026 Eileen Davies**

Dyddiad Geni: **21 Medi 1951**

Dyddiad: **7.2.14**

Cyfwelydd: **Susan Roberts ar ran Archif Menywod Cymru**

There is an English summary at the end of the Welsh text

Ganed Eileen ar 21 Medi, 1951 yn ysbty Glyn Nedd. (Roedd ei rhieni'n byw ym Mhowys, ac roedd angen Caesarian ar ei mam.) Roedd ei thad yn ffermio, a buodd ei mam yn gweithio adref gyda'i rhieni hi. Roedd ei mam eisiau mynd i nyrnio ond gan taw hi oedd yr ifancaf bu'n rhaid iddi aros adref a helpu yno.

Mae gan Eileen brawd a chwaer. (Eileen yw'r plenty canol.) Aeth i'r ysgol yng Nghwmdŵr ar yr A40. Roedd ffarm y teulu yng Nghrugybwbach, ger Trecastell. Roedd yn hoff o'r ysgol. Aeth ymlaen i'r ysgol uwchradd yn Llanymddyfri. Gwnaeth ei harholiadau lefel A yn yr ysgol ac aeth i'r ysgol gelf yn Llanelli i wneud cwrs gwnio. Fe geuodd ar ôl blwyddyn, felly aeth wedi hynny i wneud cwrs

ynghaerfyddin. (Roedd wedi gwneud lefel A mewn gwnio.) Dywedodd Eileen eu bod yn newid y cyrsiau i gyd er mwyn cynnwys mwy o gynllunio, ond gwnio roedd hi eisiau gwneud. Roeddynt eisiau iddi sefyll ymlaen am flwyddyn arall i wneud cwrs arall mewn cynllunio (HND efallai) ond fe adawodd. Ei bwriad ar y dechrau oedd dysgu gwnio ond nid oedd yn gallu pasio ei lefel O yn Saesneg felly nid oedd yn gallu mynd mewn i unrhyw goleg fel y Drindod. Fel 'absolute last resort' aeth i goleg celf. Roedd yn teimlo'n 'gutted' nad oedd wedi gallu pasio'r arholiad Saesneg a mynd i ddysgu gwnio. Ond aeth ymlaen i ddysgu dosbarthiadau nos ym Mrycheiniog beth bynnag, am dair neu bedair noson. Roedd y pwyslais ar yr ochor gymdeithasol yn hytrach na'r grefft. Roedd yn nabod lot o'r rhai yn y dosbarthiadau ac yn siarad Cymraeg â nhw, ac felly roedd yn ffeindio'r sefyllfa yn anodd achos bod rhai di-Gymraeg yn y dosbarth hefyd.

Y swydd gyntaf gafodd ar ôl gorffen yn y coleg oedd yn Aberhonddu yn alto dilliad a buodd yno am flwyddyn neu flwyddyn a hanner. Yn ystod y cyfnod hwn roedd yn gwneud y dosbarthiadau nos ac yn mynd draw i Ferthyr i wneud cwrs dysgu ('teachers' training) Ar ôl cael y plentyn cyntaf fe benderfynodd gweithio yn y dosbarthiadau nos yn unig. Roedd ei

merch fach tua tair blwydd oed pan ddechreuodd weithio yn Slimma, Llanyddyfri (tua 1977).

Cafodd Eileen y swydd achos bod mam-yn-gnhyfraith ei chwaer yn gwybod ei bod hi'n gallu gwnio ac wedi cynnig swydd iddi. Ond y swydd gyntaf a gafodd hi yno oedd siecio'r trwseri gorffenedig i weld os oedd unrhyw nam neu dyllau ynddynt. Nid oedd wir eisiau'r swydd. Roedd yn gwnio iddi'i hun adref, ac fel y dywedodd hi roedd yn eithaf 'cyffyrddus' adref, ond roedd ei mam hi wedi ei hannog i fynd i weithio yno. Nid oedd wedi cael unrhyw fath o gyfweliad ond dywedodd amser hynny, 'word of mouth' oedd hi.

Os oedd angen cywiro unrhywbeth beth byddai'n gallu mynd ar un o'r peiriannau. Ar y pryd roedd tua tri deg o bobl yn gweithio yno ac roedd y ffatri yn cynhyrchu trwseri gyda gwregys 'lastig i Marks and Spencers.

Roedd y rheolwraig (Pat Pogram) yn byw yn Tally, a'i gŵr yn gweithio yn Fords, Abertawe. Nid oedd Eileen yn ei hadnabod cyn mynd i weithio yno. Roedd y merched eraill a weithiai yno wedi cael hyfforddiant. Nid oedd ynt yn gwnio dilledyn cyfan ond rhan ohono'n unig. Roedd y trwseri yn dod yno mewn darnu, ac yn 'trafeilu' o un ochr y sied i'r ochr arall wrth gael eu gwnio. Nid oedd unrhyw ddeunydd yn cael ei dorri yno o gwbl. Roedd y darnau wedi cael eu torri'n barod ar safle arall. Buodd y darnau yn cael eu torri yn y ffatri yn Sgiwen (er bod peth ohonynt yn dod o Lamed ar un adeg.)

Roedd gan Eileen sgiliau gwnio da, ond nid yw'n son am fod yn rhwystredig gyda'r gwaith. Mae'n sôn am ba mor rwydd oedd y gwaith, a'i fod yn arian da. Merched fferm oedd sawl un o'r gweithwyr – mae Eileen yn sôn bod merched fferm 'yn gyfarwydd â gweithio.' Roedd y gwaith yn dechrau am wyth o'r gloch y bore, ac yn gorffen am hanner awr wedi pedwar, neu bump o'r gloch y prynhawn.

'O'dd rhaid i chi weithio ne gelech chi ddim ych talu.'

Roedd y merched yn gorfod gweithio i'w targedi, ond nid yw Eileen yn ystyried bod y targedi hynny'n uchel. Os oeddech yn cadw i fynd, oeddech chi'n iawn.

Roedd menywod ifainc a menywod hŷn yn gweithio yno. Roedd yn gweithio diwrnod llawn o ddydd Llun i ddydd Iau, a hanner diwrnod ar ddydd Gwener (er bod hyn yn golygu gweithio tan dri o'r gloch fel arfer.) Weithiau roedd over time os oedd angen cael archeb allan neu ar gyfer 'stock taking'.

Roedd yn reit swnllyd yno ond daeth yn gyfarwydd â'r swn. Anaml iawn byddai gweithwyr o ffatrioedd eraill Slimma'n dod yno. Roeddynt yn cwrdd weithiau, os oedd unrhyw newidiadau o fewn y cwmni, ond ni newidiodd unrhywbeth yn ffatri Llanyddyfri dros y blynnyddoedd. Dechreuodd wneud siorts ar un adeg, a buodd yn gwneud sgertiau hefyd, ond gwneud trwseri oedd y gwaith fynycha.

Roeddynt yn cael ymweliadau wrth y bosys a chynrychiolwyr o Marks and Spencers. Byddai pob dim yn cael ei gadw'n daclus ar gyfer ymweliadau Marks and Spencers. Roedd Marks and Spencer yn rhoi cyfarwyddiadau penodol iawn i'r cwmni, hyd yn oed er mwyn pennu sawl pwyth i'r modfedd roedd ei angen.

Ar ôl gweithio yn siecio'r dillad aeth Eileen ymlaen i weithio fel 'float' – sef rhywun oedd yn gwneud gwaith rhywun oedd yn absennol. Nid oedd ganddi darged pan oedd yn gweithio fel 'float'. Roedd yn cael ei thalu'r cyflog sylfaenol ac nid oedd ganddi'r cyflymder oedd gan y merched hynny a wnai'r un swydd o fore gwyn tan nos. Nid oedd Eileen ar lein felly, ond nid oedd hyn yn ei phoeni oherwydd roedd dal yn cael ei chyflog.

Nid oedd angen cymwysterau o gwbl ar gyfer y swydd. Roedd rhai o'r merched wedi dechrau'n syth o'r ysgol. Mae Eileen yn dweud roedd modd trafod y defnydd mewn ffodd er mwyn gwnio'n gynt – os oeddech yn gallu gwnio o lun y trwser i lawr i'r gwaelod heb stopo, roeddech yn gallu gorffen y gwaith yn gynt.

Buodd Eileen yn ffatri Llambed am gyfnod yn gweithio ar jîns, ond roedd yn waith caled iawn. Hefyd, buodd yn gweithio mewn ffatri yn Kenfig Hill ar ôl gadael coleg am gyfnod o chwe wythnos, lle roeddynt yn gwneud dillad allan o frethyn Cymreig. Nid oedd yr un ohonynt yn mwynhau gweithio ar y clogynnau ar wahan i un ferch, ac roedd hi'n gallu ennill arian da. Roedd yn lle bach yn cynhyrchu gwaith arbenigol, ac nid oeddynt yn cynhyrchu llawer o ddillad. Nid oedd lein yno'n cynhyrchu'r dillad fel y cyfryw. Roedd dwy o'r merched felly yn gweithio ar y clogynnau, wedi creu 'production line' bach eu hunain ac yn ennill arian da. Arweiniodd hyn at gwympo mas.

O ran ei swydd yn siecio'r dillad yn Slimma, roedd Eileen yn torri'r edau i ffwrdd, siecio bod y labeli'n iawn, siecio bod dim tyllau yn ynddynt, troi nhw allan a'u staco nhw. Pan roedd Eileen yn darganfod twll yn un o'r trwseri roedd yn rhaid iddi ddanfon y dilledyn yn ôl at y person oedd wedi'i wnio. Roedd hyn yn gallu bod yn lletchwith weithiau. I Eileen y dewis oedd gwneud hyn gyda gwên ar yr wyneb neu wrth gwmpo mas â rhywun. Nid oedd Eileen byth yn cwmpo mas â neb. Roedd tyllau'n mynd yn y trwseri wrth i'r merched ymdrechu i orffen eu gwaith yn gynt (ac ennill bonws.)

Roedd cantîn bach yn y ffatri'n darparu brecwast. Roeddynt yn cael tua chwarter awr o frêc yn y bore. Roedd y merched yn cael mynd i'r toiled bryd bynnag y mynnent ac yn 'cloncan' fel roeddynt eisiau, er gwaetha'r sŵn. Byddent yn trafod pwysedd wedi mynd mas gyda phwy, a'r swae arferol. Roedd y ffatri mor fach nid oeddynt yn cwympo mas yn aml, ond roedd hyn yn digwydd ambell waith. Roedd y merched i gyd yn nabod ei gilydd, ac yn dod o'r ardal – o Landymddyfri, Llangadog, Llanwrda. Yn ystod y cyfnod pan oedd Eileen yn goruwchwylio ac yn cyfweld ymgeiswyr ar gyfer swyddi'n y ffatri, roedd nabod teulu ac achau rhywun yn fantais. Hefyd, o ran ymddygiad roedd yn fantais ei bod hi'n gallu dweud wrth y merched ifainc am 'fyhafio' neu byddai eu mam neu eu tad yn ffeindio allan. Yn aml iawn, ni fyddai'r gweithwyr ifainc ar ddihun yn y bore am eu bod nhw wedi bod allan y noson gynt, a byddai'r gwaith yn arafu! Cyngor Eileen oedd,

00.33.43: 'Prioda er mwyn tad, and let's get back to normal.'

Roedd Pat, y rheolwraig wedi penderfynu y byddai Eileen yn rheoli'r lein, a dyna sut cafodd swydd oruuchwylwraig. Roedd rhan fwya'r lleill wedi bod yno'n hirrach nag Eileen. Hefyd, cafodd ei hethol fel cynrychiolydd undeb er nad oedd yn aelod o'r undeb.

Roedd dau fecanic yn teithio i lawr o Lamed i drwsio peiriannau pan roedd angen yn y ffatri yn Llanymddyfri. Pan roedd Eileen yn orwuchwylwraig roedd hi'n treio sortio unrhyw broblemau ar y peiriannau allan ei hun yn gyntaf, ac os oedd yn methu roedd hi'n galw

mechanic i ddod lawr. Roedd blêds ar y peiriannau i dorri defnydd felly os nag oedd digon o awch arnynt byddai'r mechanic yn eu newid.

Nid oedd llawer o gyfle i'r merched a weithiai yno i ddatblygu yn eu gyrfaoedd oherwydd yr unig waith arall yno oedd gweithio fel goruchwylwraig neu reolwr, a byddai angen i rywun adael er mwyn cael swyddi fel hyn. Nid oedd staff yn gadael yn aml a buodd y rhan fwyaf ohonynt yno am flynyddoedd.

Roedd yn anodd i Eileen gymdeithasu â'r merched eraill tu allan i'r gwaith oherwydd roedd ganddi blentyn. Roedd y merched ifainc yn cymdeithasau tipyn gyda'i gilydd.

Roedd tipyn o dynnu coes yno, ond weithiau byddai'r '**y crafangau mas**'. Asgwrn y gynnen yn aml iawn oedd bod y merched yn teimlo eu bod ar eu colled os oedd problem gyda'r peiriannau a bod y gwaith ar stop.

00.38.38: 'O'dd pob un yn cael y bai wedyn twel. Anybody in the line of fire. Gallen nhw weud beth bynnag o'n nhw'n moyn ato i. O'dd hwnna ddim yn meddwl bod fi'n codi ato fe.'

Roedd Eileen yn cyngori'r merched a oedd yn cwyno am unrhyw broblemau a fyddai'n effeithio ar eu bonws i'w chofnodi are u 'timesheet'.

O ran sgiliau ymarferol mae Eileen yn dweud roedd yn rhoi'r jobs mwyaf hawdd i'r rhai a fyddai'n cael anhawster cyflawni jobs mwy anodd. Yna, efallai cai'r person hwnnw gyfle i fynd ar beiriant arall, ond os nag oedd pethau'n gweithio allan, roedd yn rhaid mynd nôl i'r job gwreiddiol. Ni fyddai gan y gweithiwr ddewis.

00.40.17: 'Os ych chi'n gweld bod ddim o'r dawn gan rywun i neud jobyn bach eitha' syml, chi'n ffeindio rhywbeth arall iddyn nhw neud.... Ma' rhai â'r dawn i neud pethach, ac i neud beth chi'n gofyn iddyn nhw i neud'.

Roedd plant gan sawl un o'r merched a weithiai yna, fel Eileen ei hun. Roedd yr arian yn dda ac roedd Eileen yn ennill tua £100 yr wythnos pan roedd yn oruchwylwraig (30 mlynedd yn ôl). Gymerodd hi ddim sbel i ddod yn *supervisor*.

00.42.53: 'O'dd dim aspirations 'da'r merched if od lan fanna. (MAE'N RHOI EI LLAW LAN YN UCHEL) O'n nhw'n ddigon hapus i fod fanna. (MAE'N GOSTWNG EI LLAU.) O'dd dim gobeth 'da nhw i fynd ymhellach.'

Os oedd merched yn gadael, gadael i fynd i gael plant a wnant.

Roedd siop ar y safle, yn y Portakabin ar yr iard. Roedd tipyn o ddillac yn cael eu gwerthu yno – tywelion, dillac dynion ayyb, ac nid yn unig y trwseri oedd yn cael eu gwneud yn y ffatri yn Llanymddyfri. (*Seconds* oedd y dillac hyn.)

Er bod Eileen wedi cael ei hethol i gynrychioli'r merched ar yr undeb, nid oedd yn aelod, nac yn talu aelodaeth. Esboniodd nad oedd yn aelod a chafodd ei hannog i ymuno a thalu ei dyled, ond gwirthododd.

00.45.38: Dywedodd, ‘O’n i’n meddwl if I’ve got a battle to fight, I’ll fight it on my own.... I’ll fight my corner but I’m not fighting everybody else’s.’

Pan roedd yn oruchwylwraig hi oedd yn mynd ag unrhyw gwynion at y rheolwyr, felly nid oedd yn gweld unrhyw ddiben mewn cael undeb mewn lle mor fach.

00.47.00: ‘O’ch chi’n clywed yn ddigon cloi os o’dd rhywun yn twmlo bod nhw’n ca’l cam.’

Roedd Eileen yn teimlo bod y gweithwyr yn cael eu trin yn deg yno. Os oedd problem gyda’r peiriannau a’r mechanic yn methu dod, roedd hynny’n golygu bod problem gyda’r gwaith yn Llambed. Os oedd merched ar ‘downtime’ roedd Eileen yn eu cynghori ei roi hyn ar ei slips. Nid oedd yn bosib gweithio rhan amser yno.

Slimma a choleg Llanymddyfri oedd rhai o brif gyflogwyr yr ardal i fenywod. Roedd hi’n gallu mynd yn oer yn y ffatri yn ystod y gaeaf gan taw sied oedd yr adeilad, ond roedd yn gallu bod yn ferwedig yn ystod y gaeaf. Collwyd y cyflenwad trydan ar un adeg. Weithiai byddai Eileen yn mynd mewn yn gynnar yn y bore yn ystod yr haf os oedd y tywydd yn dwym, a gadael yn gynnar. Roedd yr adeilad ei hun yn rhyw fath o sied goncrit gyda thô asbestos a llawr sment. Pan roedd y llawr yn cael ei frwsio ac roedd llawer o lwch yn codi. Roedd glanhawraig ganddynt, a’r mechanics yn cynnal a chadw’r peiriannau, a’r merched yn cadw eu llefrydd bach nhw’u hunain yn daclus.

Nid Eileen yn ystyried bod y gwaith yn beryglus, er bod ganddi frith gof o dorri ei bys a gorfod cael chwistrelliad tetanys. Roedd y cyfleusterau’n lan, ‘i’r dim’.

00.54.05: ‘O’dd tomenni o drwseri ymbytu. O’dd hi ddim yn wag ‘na byth. ... O’dd y sŵn ddim yn mynd dim unman. O’t ti’n eitha’ *buffered*. O’dd y sŵn yn cael ei absorbo mewn i’r defnydd... You had *sound barriers* rownd i ti.’

Os oedd rhywun ddim yn teimlo’n gant y cant, a bod hyn yn effeithio’r perfformiad, roedd Eileen yn dodi rhywun arall ymlaen i’w helpu.

00.56.17: ‘Jobyn chi fel supervisor oedd cadw llygad ar y lein i neud yn siwr bod y gwaith yn rhedeg trwyddo.’

Roedd mwy o leins mewn ffatri fel Llambed, ac efallai’r gwaith yn fwy cymhleth. Yn Llanymddyfri roedd y trwseri yn eithaf plaem – dim poced, dim zips. Ond mae’r gwaith dal yn gorfod rhedeg yn rhwydd, yn union yr un peth â petaech chi’n gwneud jîns. Os oedd hi’n gweld bod rhywun ddim yn tynnu eu pwysau roedd yn rhaid gofyn beth oedd yn bod, a rhoi rhywun arall ymlaen i gael gwneud yn siwr bod y gwaith yn mynd trwyddo.

Cyn bod y ffatri’n cychwyn yn Llanymddyfri, roedd Slimma’n rhedeg bws gweithwyr o Lanymddyfri i Lambed. Roedd hynny’n golygu bod tua pymtheg yn teithio bob dydd. Penderfynwyd agor ffatri yn Llanymddyfri. Roedd y ffatri’n Llambed yn cynhyrchu’r un math o drwser â’r ffatri’n Llanymddyfri.

O ran Iechyd a Diogelwch cario pwysau oedd y peth pwysig. Sylweddolodd Eileen bod un o’r merched yn disgwyl babi, ond nid oedd wedi dweud wrth Eileen yn swyddogol. Roedd

rhai o'r bwndeli o drwseri yn gallu bod yn eithaf trwm. Roedd Eileen yn dweud nad oedd yn gallu gwneud dim byd i helpu'r ferch nes ei bod hi'n rhoi gwybod iddi.

Nid oedd absenoldeb o'r ffatri'n gyffredin er bod ambell un yn cyrraedd yn hwyr, gan honni bod gwartheg ar yr heol. Roeddynt yn gwrando ar y radio (Radio 2) wrth wneud eu gwaith.

Daeth prentis ifanc i weithio yno am gyfnod, ond buodd e ddim yno'n hir iawn. Cred Eileen ei fod wedi mynd ymlaen i fod yn blismon. Nid oedd cloco mewn a mas gan fod y ffatri'n fach. Y menywod heb blant oedd fynycha'n sefyll ymlaen i weithio gor-amser pan roeddynt yn cael y cynnig.

Roedd cantîn yno ond bwydydd ysgafn oedd yn cael eu darparu, fel brechdanau a rôls ac roedd yn rhaid talu am y bwyd.

Roedd wythnos o wyliau amser Pasg, pythefnos yn ystod yr haf, tua pythefnos adeg Nadolig, ac roedd y ffatri'n cau ar eu cyfer. Roedd gwyliau'r banc yn rhydd hefyd. Os oedd angen amser off am resymau personol nid oedd hynny'n broblem ond yn achos Eileen roedd yn rhaid sorto'r peth allan gan ei bod yn oruwchhwylwraig.

Nid oedd cefndir gwnïo gan y rheolwraig. Daeth o Lundain yn wreiddiol ac nid oes gan Eileen syniad sut lwyddodd i gael y swydd. Roedd Eileen, fel y merched eraill, yn teithio i'r gwaith mewn car, ac yn rhoi liffts i'w gilydd. Byddai'n gadael y tŷ am hanner awr wedi saith yn y bore.

Mae Eileen yn disgrifio gweithgareddau cymdeithasol y ffatri, fel 'mynd mas', a 'hyfed.' Fel arfer roeddynt yn dechrau ar brynhawn dydd Gwener – yn cael eu cyflog a 'bant.'

Adeg Nadolig weithiau byddai parti Nadolig allan pan fyddai'r merched yn talu am eu cinio eu hunain neu weithiau cawsant barti yn y ffatri – ond ni fyddai llawer o waith yn cael ei wneud. Roedd y merched i gyd yn cael twrci gan y cwmni adeg Nadolig.

Roedd Eileen yn meddwl bod gweithio'n y ffatri'n 'iawn'. Nid oedd 'gofid' yno. Gadawodd Eileen y ffatri pan briododd. Roedd tipyn o ansicrwydd o ran dyfodol y ffatri pan adawodd hi. Buodd yn gweithio yno rhan amser, ac roedd y rheolwraig eisiau iddi ddod yn ôl ond fe gariodd ymlaen i wnïo drwy'r amser. Buodd hefyd yn gweithio yn y coleg yn trwsio dillad y disgyblion. Roedd ei gŵr wedi dweud wrthi nad oedd yn rhaid iddi weithio ac roedd yn hapus yn gweithio ar ei liwt ei hun.

English summary

Slimma-Dewhirst Garment-making Factory, Llandovery (from 1977)

Interviewee: VSW026 Eileen Davies

Date: **7.2.14**

Interviewee: Susan Roberts on behalf of Women's Archive of Wales

Eileen was born on 21st September, 1951 in Neath Hospital. (Her parents lived in Powys and her mother needed a Caesarian section.) Her father was a farmer, and her mother worked at home with her parents. Her mother wanted to be a nurse but because she was the youngest child had to stay at home and help.

Eileen is the middle child of three children. (She has a brother and sister.) She attended school in Cwmdŵr on the A40. The family farm was Crugybwbach near Trecastle and she went on to secondary school in Llandovery. She liked school and did her A levels (including sewing) before going to art school in Llanelli to do a sewing course. The course was closed down after a year so she switched to a course in Carmarthen. They wanted her to stay on here for another year to do a course in design but she left. Her intention had been to teach sewing but she couldn't pass her English O Level so she couldn't go to a college like Trinity, Carmarthen. As a last resort she went to art college. She felt gutted that she couldn't teach sewing but went on to teach in night classes in Brecon anyway. She taught on three or four nights a week. The focus seemed to be on the social aspects of the class rather than the craft itself. She knew many of the people who took the class and spoke Welsh with them, so she found the situation awkward because there were non-Welsh speakers in the class as well.

The first job that she got after leaving college was in Brecon, altering clothes, and she was there for a year and a half. During this time she was also doing night classes and going over to Merthyr to do a teachers' training course. After having her first child she decided to just work doing the night classes. Her daughter was about three years old when she started working in Slimma in Llandovery (circa 1977).

Eileen got the job because her sister's mother-in-law knew that she could sew and offered it to her. The first job she got there was checking the finished trousers to see whether there were any faults or holes in them. She didn't really want the job and was quite happy at home, but her mother encouraged her to go and work there. She wasn't interviewed for the job.

If any faults needed correcting Eileen could get behind one of the machines and do them herself. There were about thirty people working in the factory at the time, producing trousers with elasticated waists for Marks and Spencers.

The manageress, Pat Pegram, lived in Tally and her husband worked in Fords in Swansea. Eileen didn't know her before she went to work in the factory. The other women who worked there had been trained at the factory. They would sew parts of the garments, and not a whole garment. The trousers would come in parts and travel from one part of the shed to

the other as it was sewn. The pieces were cut in Skewen, and at one time were cut in Lampeter rather than on site.

Eileen had good sewing skills and found the work easy. The money was good too. Many of the girls were from a farming background and Eileen thinks they were recruited because they were used to working hard. She started work at eight o'clock in the morning and finished at half past four or five o'clock.

The women worked to targets. Eileen doesn't think the targets were set too high but they had to keep going to earn their money.

There were young women and older women working there. Eileen worked from Monday to Thursday, with a half day on a Friday. There would be over-time available sometimes if they were trying to finish an order or for stock taking purposes.

It was quite a noisy place to work but she got used to the noise. There weren't many changes introduced in the factory during the time that Eileen was there. They started making shorts and skirts at one time, but they normally made trousers.

They would get visits from the bosses and from representatives of Marks and Spencers. Everything would be kept clean and tidy for the Marks and Spencers visits. Marks and Spencer would give very specific instructions about their requirements, even down to the number of stitches per inch.

After working as a checker, Eileen went on to work as a float – which was someone who did the work of anyone who was absent. She didn't have targets when she worked as a float but was paid a basic wage. She wasn't as fast as the girls who did the same job every day.

No qualifications were needed for the job. Some of the girls had started working there straight from school. Eileen says there were ways of handling the fabric to maximise sewing speed. If somebody could sew from the hip of the trouser leg to the bottom without stopping the work would be finished sooner.

Eileen worked on jeans for a while at the factory, but this was very hard work. She had also worked in a factory in Kenfig Hill for six weeks after leaving college, making clothes from Welsh flannel. Nobody there enjoyed making the cloaks, apart from one woman, who earned good money doing it. It was a small factory producing specialised work, and didn't have a production line as such although the two girls working on the capes had created their own production line. This led to arguments.

As a checker Eileen would cut the threads off the garments, check that the labels were correct, check for holes, turn them out and stack them. When she discovered a hole she would have to return the garment to the person who had sewn it. This could be awkward sometimes. For Eileen there was a choice – she could either do this with a smile on her face or quarrel with the person concerned. Eileen would choose the first option.

There was a small canteen in the factory which provided breakfast. The workers had a quarter of an hour break in the morning and an hour's break for lunch. The girls could go to the toilet whenever they wanted to and would talk as much as they liked, despite the noise. They would discuss who was going out with whom. There wasn't much squabbling,

although this did happen occasionally. They all came from the area and knew each other. During the time that Eileen worked as a supervisor, she would interview candidates for jobs in the factory and knowing the candidates' families and backgrounds was definitely an advantage. This was also an advantage when she had to tell the girls to behave themselves. The younger workers would have trouble getting to work on time because they had been out the night before. Eileen's advice was,

00.33.43: 'Get married for goodness sake, and let's get back to normal.'

Pat, the manageress, had decided that Eileen would manage the line, and this is how she got the supervisor's job even though most of the other girls had been there longer than her. She was also elected as union representative even though she wasn't a member of the union.

Two mechanics would travel down from Lampeter to fix machines. When Eileen was supervisor she would try and sort out any problems on the machines herself but if she couldn't she would have to call a mechanic. There were blades on the machines that cut fabric so if they were blunt the mechanic would change them.

There weren't many opportunities for advancement in the factory because it was a small set up and a vacancy as a supervisor would only arise if somebody left. Staff didn't leave very often, and indeed most of them were there for years.

It was difficult for Eileen to socialise with her colleagues outside working hours because she had a small child. The younger girls socialised a lot with each other.

There was a lot of leg pulling. On the other hand, Eileen would also see the 'claws coming out.' The girls would get annoyed if they thought they were losing out – and this would happen if there was a problem with the machines and the work was on stop.

00.38.38: 'Everybody would be blamed then and everybody would be in the line of fire. They could say whatever they wanted to me. That didn't mean that I would rise to it.'

Eileen would advise the women who complained about problems that affected their bonus to make a note on their timesheets. She would give the easiest jobs to those workers who were having difficulty completing more complex tasks. Workers couldn't choose which jobs they did.

00.40.17: 'If you saw that somebody didn't have the ability to do a simple job, you'd find something else for them to do... Some people have the talent to do things, and to do what you ask them to do.'

Several of the women had children, like Eileen herself. The money was good and Eileen earned about £100 a week when she was a supervisor (thirty years ago).

00.42.53: 'The girls who worked there didn't have aspirations. They were quite happy to stay there.' If they left, it was to go and have children rather than to go to another job.

There was a shop in a Portakabin on the site selling seconds - towels, men's clothes - and not just the ladies' trousers made in Llandovery.

After Eileen had been elected as union representative she explained that she wasn't a member. She was encouraged to join and pay membership but she refused.

00.45.38: She said, 'I thought that if I've got a battle to fight, I'll fight it on my own ... I'll fight my corner but I'm not fighting everybody else's.'

When she was supervisor it was she who took any complaints to the manager, so she didn't see any point in having a union there.

00.47.00: 'If somebody thought they were hard done by, it wouldn't take long for you to hear about it.'

Eileen feels the workers were treated fairly at the factory. It wasn't possible to work part time. Slimma and Llandovery College were two of the biggest employers in the area for women. It could get cold in the factory in the winter because the building was basically a shed, but it could also be boiling there during the summer. Sometimes Eileen would go in early during the summer and go home early to avoid the hottest times of the day. The building itself was a concrete shed with an asbestos roof. When the floor was brushed there would be a lot of dust. They had a cleaner but the girls also kept their own work space clean and tidy.

The work wasn't dangerous and the facilities were clean.

00.54.05: 'There were piles of trousers around the place. It was never empty there ... The noise didn't go anywhere. You were quite buffered. The noise was absorbed by the fabric ... You had sound barriers round you.'

If somebody wasn't feeling a hundred per cent and it was affecting their performance, Eileen would get somebody to help them.

00.56.17: 'Your job as a supervisor was to keep an eye on the line to ensure that the work went smoothly.'

There were more lines in a factory like Lampeter, and the work more complicated. The trousers produced in Llandovery were quite plain – no pockets, or zips but the work still had to run efficiently. If she saw that somebody wasn't pulling their weight she would have to ask them what was wrong and put somebody else on to ensure that the work went through.

Before the factory in Llandovery started, Slimma ran a bus for about fifteen workers to travel from Llandovery to Lampeter. It was decided to open a factory in Llandovery. The Slimma factory in Lampeter produced the same type of trousers as they did in Llandovery.

There weren't many days taken off sick although some of the girls would arrive late now and again, claiming that there was cattle on the road. Radio 2 would be playing as they worked.

An apprentice worked there for a short while, but went on to become a policeman. As it was a small factory, clocking in and out didn't take place. It was usually the women without children who worked over-time.

The canteen sold light snacks, like sandwiches and rolls.

There was a week's holiday Easter time, a fortnight in the summer when the factory would shut down, and about a fortnight at Christmas time. They were also off on bank holidays. It was possible to have time off for personal reasons but this was more difficult for Eileen as she was a supervisor.

The manageress didn't have a background in sewing. She was from London, originally and Eileen doesn't know how she secured the job. Eileen travelled to work by car, and the girls gave each other lifts.

Eileen describes the social life of the women in the factory as going out and drinking. They would usually start on a Friday afternoon after getting their wages.

At Christmas time the women would have a party which they would have to pay for themselves. They all had a free turkey from the company.

Eileen didn't mind working at the factory – it was a stress free job. She left when she got married. There was quite a lot of concern for the future of the factory at this time. Her husband had said she didn't have to work, and she was quite happy to pursue a career working for herself.